Docusign Envelope ID: FB134AB5-D979-4943-B414-E948B53C7537

# GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN (UPPER WILLIAM STREET, LLANELLI) (ATALIAD DROS DRO O AROS A MANNAU PARCIO I BRESWYLWYR) 2025

---

**GAN FOD** Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “y Cyngor”), sef yr Awdurdod Priffyrdd dros yr ardal, wedi’i fodloni ei bod yn angenrheidiol ac yn hwylus gwahardd aros a pharcio trigolion dros dro ar hyd a lled y ffordd a elwir yn Upper William Street yn Llanelli oherwydd bod gwaith lleoli’r brif gyflenwad nwy yn cael ei wneud, neu wedi’i fwriadu, ar y ffordd neu gerllaw (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “y Gwaith”).

**YN AWR FELLY**, mae'r Cyngor, wrth arfer ei bwerau o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991) a’r holl bwerau galluogi eraill, drwy hyn, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Ni chaiff unrhyw berson beri i gerbyd aros na pharcio ar unrhyw adeg ar hyd ac ochrau'r ffordd a elwir yn Upper William Street yn Llanelli tra bod y Gwaith yn mynd rhagddo, ac eithrio cerbydau sy'n ymwneud â'r Gwaith.

2. Gall unrhyw berson sy'n gweithredu yn groes i'r Gorchymyn hwn fod yn destun camau gorfodi o dan Adran 16(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

3. Bydd “Gorchymyn Cydgrynhoi Sir Caerfyrddin (Llanelli) (Cyfyngiad Aros a Mannau Parcio Stryd) (Amrywiad Rhif 1) 2004” a “Gorchymyn Ardal Barcio Arbennig Sir Caerfyrddin (Llanelli) (Mannau Parcio Preswylwyr) 2004” yn cael eu hatal dros gyfnod y Gwaith, i’r graddau y maent yn ymwneud â hyd ac ochrau’r ffyrdd yr effeithir arnynt gan y Gorchymyn hwn.

4. Caiff y Gorchymyn hwn gael ei adnabod fel “Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Upper William Street, Llanelli) (Ataliad Dros Dro o Aros a Mannau Parcio i Breswylwyr) 2025” a bydd yn dod i rym ar yr Ail Ddiwrnod ar Bymtheg o Dachwedd 2025 a parhau mewn grym tan ddiwedd y Gwaith.

Docusign Envelope ID: FB134AB5-D979-4943-B414-E948B53C7537

19445

Rhoddwyd Sêl Gyffredin

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

ar y ddogfen hon ar

y Pumed o Dachwedd 2025

ym mhresenoldeb:




Signed by:
Steven P Murphy
6947BF055CF64B2...

........................................................................................

**Steven P Murphy**
**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**